# Pecyn Cyhoeddus

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023

Dwynwen Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn Hybrid - Siambr y Cyngor - Penmorfa/ Rhithiol, Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Adroddiad monitro chwe-misol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi (Tudalennau 3 - 24)**

4. **Trafod gyda'r Swyddogion y posibilrwydd o sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael**

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 25 - 30)**

6. **Ystyried Blaenraglen Waith y Dyfodol (Tudalennau 31 - 36)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 07/12/2023 |
| **Teitl:** | Adroddiad monitro chwe-misol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni polisi Ymgysylltu a Chyfranogi'r Cyngor a datblygu pecyn cymorth newydd ar gyfer ymgysylltu. |

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth hon:**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2023 am y cynnydd a wnaed o ran y cynllun gweithredu yn ystod 2022-23. Cytunwyd y byddai adroddiad monitro 6 misol yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2023.

**Cefndir**

Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd', yn cynnwys cynllun gweithredu ac mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y cynllun gweithredu hwnnw.

Mae'r Polisi wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan:
https://www.ceredigion.gov.uk/media/12029/polisiymgysylltuachyfranogicyngorsirceredigionmai2022.pdf

Cytunodd y Cabinet ag argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol sef:

- y dylai pawb sy'n cymryd rhan yn yr ymarferion ymgysylltu dderbyn y canlyniadau; a
- bod adroddiad monitro 6 misol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

**Y sefyllfa bresennol**

Mae dull cyson o roi adborth wedi'i amlinellu yn y pecyn cymorth newydd ar gyfer ymgysylltu. Bydd pwysigrwydd rhoi adborth yn cael ei bwysleisio yn yr hyfforddiant a roddir ynghylch defnyddio'r pecyn cymorth.

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran y cynllun gweithredu. Mae llawer o'r cynnydd hwn o ganlyniad i'r pecyn cymorth diwygiedig ar gyfer ymgysylltu. Gallwch weld y pecyn cymorth yn Atodiad 1.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys pedwar nod ac mae system Coch/Oren/Gwyrdd ar waith i fonitro'r cynnydd a wneir. Dyma ystyr y gwahanol liwiau: Coch (dim cynnydd wedi'i wneud), Oren (rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud), Gwyrdd (cam gweithredu ar y trywydd iawn neu wedi'i gwblhau).

**1. Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion.**

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran statws y camau gweithredu. Mae'r tri cham gweithredu bellach yn wyrdd. Yn flaenorol, roedd dau o'r camau gweithredu yn wyrdd a'r llall yn oren.

**2. Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau.**

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran statws y camau gweithredu. Mae un o'r camau gweithredu yn wyrdd a'r ddau arall yn oren. Yn flaenorol, roedd un yn wyrdd, un yn oren ac un yn goch.

**3. Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth.**

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran statws y camau gweithredu. Mae'r tri cham gweithredu bellach yn wyrdd. Yn flaenorol, un oedd yn wyrdd; roedd y ddau arall yn oren.

**4. Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu.**

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran statws y camau gweithredu. Mae'r tri cham gweithredu bellach yn wyrdd. Yn flaenorol, roedd dau o'r camau gweithredu yn wyrdd a'r llall yn oren.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad cynnydd yn Atodiad 2.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.**
Nac oes. Ni fydd hyn yn arwain at newid mewn polisi na gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol
**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol
**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol
**Atal:** Ddim yn berthnasol
**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol

**Argymhellion:**
Nodi cynnwys yr adroddiad monitro chwe-misol ynghylch y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

Nodi'r pecyn cymorth newydd ar gyfer ymgysylltu.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er mwyn sicrhau bod y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn cael ei graffu'n briodol.

**Enw Cyswllt:** Cathryn Morgan

**Swydd:** Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant

**Dyddiad yr adroddiad:** 16/11/2023

**Acronymau:**
Dim

# PECYN CYMORTH YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI



# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Cam 1 - Materion i'w hystyried a lle i gael help ... 4
Cam 2 - Pwy yw eich rhanddeiliaid? ... 5
Cam 3 - Methodoleg ... 5
Cam 4 – Llunio eich ymgyrch ... 6
Cam 5 - Cyfathrebu ... 7
Cam 6 - Defnyddio'r canlyniadau ... 8
Atodiad 1. Templed o'r Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ... 10
Atodiad 2: Rhestr o'r Rhanddeiliaid ... 13
Atodiad 3: Templed ar gyfer cynnwys testun ar y dudalen we ... 15
Atodiad 4. Enghraifft o amserlen ... 16
Atodiad 5. Egwyddorion Gunning ... 17
Atodiad 6. Offeryn gwneud penderfyniadau am ymgynghori ... 18

## Cyflwyniad

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu awgrymiadau a chyngor ynglŷn â chynllunio a chynnal eich ymgyrch ymgysylltu neu ymgynghori. Mae'r atodiadau ar ddiwedd y ddogfen yn cynnwys templedi ac awgrymiadau o destun y gallwch eu defnyddio. Bydd Atodiad 1 o gymorth wrth i chi gynllunio eich ymgyrch.

Mae rhai pobl yn meddwl bod ymgysylltu ac ymgynghori yr un peth. Gall hyn arwain at ddryswch.

**Beth yw ymgysylltu?**
Mae ymgysylltu yn broses barhaus. Wrth ymgysylltu, rydym yn datblygu perthynas â'r trigolion yng Ngheredigion, yn ogystal â'r sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda nhw. Rydym eisiau i bobl ddeall ein meddylfryd wrth ystyried dyfodol ein gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn cynnal ymgyrch ymgysylltu benodol i gael barn ychwanegol cyn datblygu cynllun neu brosiect newydd sy'n arwain at newid mewn gwasanaeth.

**Beth yw ymgynghori?**
Mae ymgynghoriadau fel arfer yn canolbwyntio ar benderfyniadau neu newidiadau penodol y mae'r Cyngor yn eu hystyried. Mae yna reolau y mae'n rhaid i ni eu dilyn i sicrhau bod ein hymwneud ni â'r rhanddeiliaid yn ystyrlon ac nad yw'r Cyngor yn destun her gyfreithiol. Gweler Egwyddorion Gunning yn Atodiad 5.

At ddibenion y pecyn cymorth hwn, defnyddir y term 'ymgyrch' ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori.

**Cyd-gynhyrchu**
Mae cyd-gynhyrchu yn caniatáu i bobl sy'n darparu gwasanaethau a phobl sy'n eu derbyn i rannu'r pŵer a'r cyfrifoldeb. Trwy wneud hyn, mae'r gwasanaethau a'r dinasyddion yn cydweithio ac mae'r berthynas rhyngddynt yn un gyfartal. Mae'r dull hwn yn cael ei ystyried yn arfer gorau ac mae angen ymrwymiad ystyrlon gan bawb sy'n rhan ohono. Trafodwch hyn gyda'ch rheolwr llinell.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys cyfres o ddeg egwyddor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfranogwyr. Ni fydd angen mwy na 5 munud arnoch i ddarllen y ddogfen hon a byddem yn argymell eich bod yn gwneud hynny.

## Cam 1 - Materion i'w hystyried a lle i gael help

- Pam ydych chi'n cynnal yr ymgyrch? Beth sydd angen i chi ei ddarganfod?
- A oes angen i chi gynnal eich ymgyrch? Defnyddiwch yr Offeryn Gwneud Penderfyniadau am Ymgynghori yn Atodiad 6.
- Beth fydd y Cyngor yn ei wneud o ganlyniad i'r ymgyrch?
- Ceisiwch reoli'r disgwyliadau – byddwch yn glir am yr hyn y gellir ei gyflawni a'r hyn na fydd modd ei gyflawni.
- Ystyriwch hyd eich ymgyrch. Mae ymgyrch sy'n para rhwng 8 a 12 wythnos yn cael ei ystyried yn arfer da. Serch hynny, nid oes amserlen benodol. Cofiwch gynnwys eich ymgyrch yn yr amserlen yr ydych chi wedi'i chreu ar gyfer y newid yn y gwasanaeth. Mae templed i'w weld yn Atodiad 4.
- Byddwch yn ymwybodol o Egwyddorion Gunning – gweler Atodiad 5.
- Sut y byddwch chi'n rhoi adborth am y canlyniadau i'ch rhanddeiliaid gan gynnwys y Grŵp Arweiniol, aelodau'r Pwyllgorau Craffu, yr Aelodau Cabinet a'r trigolion?
- A oes angen i chi gynnal Asesiad Effaith Integredig?

Eich ymgyrch chi yw hon. Mae'r timau canlynol ar gael i'ch helpu a'ch cynghori, ond nid ydynt yn gallu gwneud y gwaith ar eich rhan. Pan fyddwch yn dechrau'r gwaith cynllunio, cysylltwch â nhw i roi gwybod am eich ymgyrch.

- **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** – bydd y tîm hwn yn darparu cyngor cyffredinol a bydd yn sicrhau bod pob ymgyrch ymgysylltu ac ymgynghori yn cael ei goruchwylio'n gorfforaethol partneriaethau@ceredigion.gov.uk
- **Perfformiad ac Ymchwil** – bydd y tîm hwn yn rhoi cyngor i chi am y cwestiynau yr ydych am eu gofyn ac am eich adroddiad dadansoddi perfformiadacymchwil@ceredigion.gov.uk
- **Cyfathrebu** – bydd y tîm hwn yn eich helpu i hyrwyddo eich ymgyrch swyddfarwasg@ceredigion.gov.uk
- **Polisi Iaith Gymraeg** – bydd y tîm hwn yn rhoi cyngor i chi am ein dyletswydd statudol i ofyn am farn y cyhoedd ynglŷn ag effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg
cymraeg@ceredigion.gov.uk
- **Tîm Rheoli Canolfan Gyswllt Clic** – bydd angen i chi sicrhau bod gan y tîm hwn yr holl wybodaeth angenrheidiol am eich ymgyrch fel y gallant ddelio ag unrhyw ymholiadau oddi wrth y cyhoedd.
cs.ccm@ceredigion.gov.uk

- **Cymorth TGCh** – bydd y tîm hwn yn rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â rhoi eich ymgyrch ar ein gwefan gyhoeddus servicedesk@ceredigion.gov.uk

## Cam 2 - Pwy yw eich rhanddeiliaid?

Nodwch eich rhanddeiliaid. Gall y rhain gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, pobl o oedran penodol, pobl sy'n byw mewn ardal benodol, cyrff cyhoeddus eraill neu 'bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheredigion'.

Dylai eich rhestr rhanddeiliaid bob amser gynnwys Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ceredigion, y Grŵp Arweiniol, clercod y Cynghorau Tref a Chymuned, gweithlu'r Cyngor, Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a grwpiau a fforymau perthnasol o ran y defnyddwyr gwasanaeth. Mae rhestr o'r rhain ynghyd â'u manylion cyswllt i'w gweld yn Atodiad 2.

Pan fyddwch chi'n gwybod pwy yw'ch rhanddeiliaid, byddwch chi'n gallu penderfynu ar y ffordd orau o'u cynnwys nhw a chyfathrebu â nhw.

## Cam 3 - Methodoleg

Efallai y byddwch yn penderfynu defnyddio dulliau amrywiol i gael adborth oddi wrth eich rhanddeiliaid. Bydd hyn yn dibynnu ar yr adnoddau sydd gennych, eich cyllideb ac anghenion eich cynulleidfa darged. Mae'n bwysig casglu enghreifftiau o brofiadau uniongyrchol pobl o'ch pwnc, yn enwedig os oes ganddynt ddealltwriaeth o'r pwnc yn sgil profiad. Yr enw ar hyn yw 'profiad bywyd'.

**Dulliau**

◊ Paratowch holiadur neu arolwg. Rhaid iddynt fod ar gael ar bapur a hefyd ar-lein.

◊ Gofynnwch i'ch rhanddeiliaid godi'r mater fel eitem i'w thrafod ar agenda un o'u cyfarfodydd rheolaidd.

◊ Ymunwch â'r digwyddiadau ymgysylltu niferus sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor a'n partneriaid. Gofynnwch i'n tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant a'n tîm Cyfathrebu os oes unrhyw ddigwyddiadau addas ar y gweill.

◊ Rhowch wahoddiad i'ch rhanddeiliaid i grŵp ffocws - ar-lein, wyneb yn wyneb neu ar ffurf 'hybrid.'

◊ Trefnwch gyfarfod neu weithdy cymunedol lle y gall pobl alw heibio.

◊ Gwnewch gyfweliadau strwythuredig gyda rhanddeiliaid penodol - wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn.

◊ Anfonwch e-bost neu lythyr wedi'i dargedu, gan wahodd pobl i roi adborth i chi neu ofyn i bartneriaid rannu'r ymgyrch gyda'u rhwydweithiau.

## Cam 4 – Llunio eich ymgyrch

- Paratowch y wybodaeth gefndirol y bydd ei hangen ar eich rhanddeiliaid fel y gallant roi adborth ystyrlon i chi. Penderfynwch ar y cwestiynau yr hoffech eu gofyn. Defnyddiwch iaith glir ac osgowch jargon. Peidiwch â gofyn cwestiynau sy'n arwain y sawl sy'n eu hateb i gyfeiriad penodol a pheidiwch â gofyn cwestiynau amwys.

- Cofiwch gynnwys y dyddiad cau, y cyfeiriad post, y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn.

- Paratowch fersiwn print bras o'r wybodaeth trwy glicio ar 'dewiswch y cyfan' yn Microsoft Word, newid y ffont i Arial 16 a chadw'r ddogfen o dan enw gwahanol. Efallai y bydd angen i chi ddiwygio'ch dogfen.

- Paratowch fersiwn Hawdd ei Deall drwy ddefnyddio'r adnoddau o'n tudalen ar Microsoft Teams: Hawdd ei Deall

- Paratowch fersiwn sy'n addas ar gyfer rhywun ifanc. Cysylltwch â'r Swyddog Plant a Phobl Ifanc i gael cyngor: porthcymorthcynnar@ceredigion.gov.uk

- Paratowch boster ar gyfer pobl nad ydynt yn mynd ar-lein. Cofiwch gynnwys yr holl wybodaeth allweddol a nodwch sut y gellir ymateb heb fod yn rhaid iddynt fynd ar-lein. Cadwch hwn fel jpg neu pdf fel y gellir ei rannu'n hawdd.

- Gwnewch yn siŵr bod gennych fersiynau Cymraeg a Saesneg o'ch holl ddogfennau.

**Os ydych yn llunio arolwg:**

◊ Cofiwch gynnwys y cwestiynau monitro cydraddoldeb fel rhan o'ch holiadur. Mae'r rhain ar gael ar Cerinet. Bydd angen y rhain arnoch ar gyfer eich adroddiad dadansoddi.

◊ Trosglwyddwch gwestiynau eich arolwg i Microsoft Forms (neu feddalwedd gyffelyb) i greu fersiwn ar-lein.

**Os ydych chi'n cynnal gweithdy, cyfweliad strwythuredig neu grŵp ffocws**

- ◊ Ceisiwch gadw at y pwnc. Defnyddiwch y cwestiynau neu'r penawdau yr ydych wedi'u datblygu. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth i chi ddadansoddi eich adborth.

- ◊ Casglwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am y rhai sy'n mynychu. Bydd angen hyn arnoch ar gyfer eich adroddiad dadansoddi.

**Os ydych yn mynychu digwyddiad ymgysylltu a drefnir gan rywun arall**

- ◊ Bydd stondinau gwybodaeth eraill yno a byddant yn cystadlu yn eich erbyn! Paratowch arddangosfa drawiadol a meddyliwch am weithgareddau rhyngweithiol i gasglu barn pobl.

- ◊ Casglwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am y bobl yr ydych chi wedi siarad â nhw. Bydd angen hyn arnoch ar gyfer eich adroddiad dadansoddi.

## Cam 5 - Cyfathrebu

- Defnyddiwch y templed yn Atodiad 3 i anfon gwybodaeth am eich ymgyrch i ddesg gymorth y Gwasanaeth TGCh.

- Rhowch eich holl wybodaeth yn fformat Microsoft Word a defnyddiwch y botwm ‘Gwirio Hygyrchedd’ o dan ‘Adolygu’ ar eich bar offer i wirio bod modd i bobl sydd ag amhariad at y golwg eu darllen nhw’n rhwydd. Darllenwch y ddogfen hon: Microsoft: Make your Word documents accessible to people with disabilities.

- Gofynnwch i’r Gwasanaeth TGCh roi'r wybodaeth, y dogfennau a'r dolenni ar ein tudalen Ymgysylltu ac Ymgynghori ar wefan y Cyngor. Gofynnwch iddynt beidio â gwasgu’r botwm i fynd yn fyw hyd nes y byddwch chi’n barod.

- Pan fydd y wefan yn barod, ond heb fynd yn fyw eto, crëwch god QR drwy dde-glicio ar y man gwag ar y dudalen we a chlicio ar ‘Creu cod QR ar gyfer y dudalen hon’. Cofiwch gynnwys y cod QR ar eich poster fel y gall pobl nad ydynt yn ymweld â’n gwefan yn rheolaidd fynd ati’n rhwydd.

- Rhannwch y wybodaeth am eich ymgyrch â swyddfarwasg@ceredigion.gov.uk. Gofynnwch iddyn nhw hyrwyddo'ch ymgyrch. Bydd modd iddynt wneud hynny drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg, rhoi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a pharatoi cylchlythyr.

- Os ydych chi am rannu eich ymgyrch â gweithlu'r Cyngor fel eitem newyddion wythnosol, rhannwch y wybodaeth â hrnews@ceredigion.gov.uk.

- Rhannwch y wybodaeth â thîm rheoli canolfan gyswllt Clic cs.ccm@ceredigion.gov.uk . Bydd hyn o gymorth iddynt ymateb i unrhyw ymholiadau oddi wrth y cyhoedd ynglŷn â'ch ymgyrch.

**Pan fyddwch chi'n barod i 'fynd yn fyw'**

- Anfonwch y wybodaeth am eich ymgyrch i'n Llyfrgelloedd a'n Canolfannau Hamdden/Llesiant, gan ofyn iddynt argraffu ac arddangos y poster, ac argraffu unrhyw ddogfennau ategol o'n tudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau, os gwneir cais amdanynt.
    - ◊ Llyfrgelloedd: Llyfrgell.library@ceredigion.gov.uk
    - ◊ Canolfannau Hamdden/Llesiant: ceredigionactif@ceredigion.gov.uk
- Anfonwch y wybodaeth at y bobl sydd wedi'u nodi ar y rhestr rhanddeiliaid gan wneud hynny ar e-bost neu drwy'r post. Efallai y byddwch am anfon rhai negeseuon atgoffa tra bo'r ymgyrch yn mynd rhagddi.

## Cam 6 - Defnyddio'r canlyniadau

- Pan fydd eich ymgyrch wedi dod i ben, paratowch neges i ddweud bod yr ymgyrch bellach wedi cau a diolchwch i'r holl bobl/mudiadau a ymatebodd. Esboniwch beth fydd yn digwydd nesaf.
- Gofynnwch i ddesg gymorth y Gwasanaeth TGCh newid y wybodaeth ar y dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau gan gynnwys nodyn o ddiolch a neges am yr hyn fydd yn digwydd nesaf. Gofynnwch iddynt symud eich tudalen i'r adran 'wedi cau'.
- Ar ôl i'r ymgyrch ddod i ben, dylech baratoi adroddiad dadansoddi, gan gynnwys enghreifftiau o 'brofiad bywyd'. Gall y gwasanaeth Perfformiad ac Ymchwil, perfformiadacymchwil@ceredigion.gov.uk ddarparu cyngor am hyn.
- Bydd gan bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch anghenion gwahanol a byddant yn dymuno derbyn adborth mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried.
- Cofiwch lwytho'r adroddiad dadansoddi (neu ddolen i'r adroddiad Cabinet) i'r dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau gorfforaethol ac anfonwch gopi ar e-bost at y rhanddeiliaid y gwnaethoch chi ofyn iddynt ymateb i'r ymgyrch.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

- Os mai ymgyrch ymgysylltu oedd eich ymgyrch gychwynnol, gallwch lunio cynllun, polisi neu strategaeth newydd gan ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y mater dan sylw.
- Bydd angen i chi fynd â phapur gerbron y Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet cyn y gwneir penderfyniad terfynol.
- Daw'r cynllun, polisi neu strategaeth newydd i rym ar ddyddiad penodol.



Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ymgynghori ac ymgysylltu, cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant drwy anfon neges i partneriaethau@ceredigion.gov.uk

## Atodiad 1. Templed o'r Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori

**Cynllun Ymgysylltu / Ymgynghori ar gyfer:** [enw'r ymgyrch ymgysylltu/ymgynghori]

**Fersiwn:**

**Swyddog arweiniol:**

**Bydd yr ymgyrch gyhoeddus yn dechrau ar:** [dyddiad]

**Bydd yr ymgyrch gyhoeddus yn dod i ben ar:** [dyddiad]

| **Cefndir – Beth ydym yn bwriadu ei wneud a pham?** (Gellir copïo'r wybodaeth hon a'i chynnwys mewn datganiad i'r wasg a'r dudalen berthnasol ar y we). |
|---|
| |

| **Dadansoddiad o'r rhanddeiliaid** (Â phwy y mae angen i ni ymgynghori a pham?) |
|---|
| |

| **Y camau nesaf** (beth fydd yn digwydd o ganlyniad i'r ymgyrch hon?) |
|---|
| |

| | Manylion | Y sawl sy'n gyfrifol | Pwy y byddwn ni'n eu cyrraedd? |
|---|---|---|---|
| Arolwg ar-lein | | | |
| Arolwg papur | | | |
| Fersiwn print bras o'r arolwg | | | |
| Fersiwn Hawdd ei Deall o'r arolwg | | | |
| Fersiwn o'r arolwg sy'n addas ar gyfer pobl ifanc | | | |
| Poster (gan gynnwys cod QR i'r dudalen ar y we) | | | |
| Cynnwys y wybodaeth ar y dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor | | | |
| Datganiad i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol | | | |
| Eitem ar agenda un o gyfarfodydd y rhanddeiliaid | | | |
| Digwyddiad / Digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd | | | |
| Grŵp / Grwpiau ffocws | | | |
| Cyfarfod/gweithdy cymunedol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau strwythuredig gyda rhanddeiliaid penodol | | | |
| E-byst neu lythyron wedi'u targedu | | | |

## Atodiad 2: Rhestr o'r Rhanddeiliaid

### Rhanddeiliaid y mae'n rhaid ymwneud â nhw

| Enw'r grŵp | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ceredigion | drwy democratiaeth@ceredigion.gov.uk |
| Y Grŵp Arweiniol | drwy eich Swyddog Arweiniol Corfforaethol |
| Cynghorau Tref a Chymuned | drwy partneriaethau@ceredigion.gov.uk |
| Staff Cyngor Sir Ceredigion | Negeseuon ar dudalen Tîm Ceredigion ar MS Teams |
| Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion | drwy partneriaethau@ceredigion.gov.uk |

### Grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth

| Enw'r grŵp | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Ein Llais Ein Dewis<br>*Grŵp hunaneiriolaeth ar gyfer pobl sydd ag Anableddau Dysgu* | ourvoiceourchoiceceredigion@gmail.com<br><br>Hefyd, dylech gynnig anfon copïau Hawdd eu Deall atynt drwy'r post: Blwch Post 281, Aberystwyth, SY23 9BY |
| Fforwm Anabledd Ceredigion<br>*Grŵp y mae'r Cyngor yn ei arwain ar gyfer pobl ag anableddau* | drwy cathryn.morgan@ceredigion.gov.uk |
| Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion<br>*Canolfannau sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd â phlant ifanc yn y Borth, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Aberteifi a Thregaron* | carol@plantdewi.co.uk |
| Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog<br>*Cymuned y Lluoedd Arfog (gan gynnwys pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn)* | partneriaethau@ceredigion.gov.uk |
| Clybiau Ffermwyr Ifanc<br>*Pobl ifanc rhwng 10 a 28 oed (mae llawer iawn o'r aelodau yn byw mewn ardaloedd gwledig ac yn siarad Cymraeg)* | anne@yfc-ceredigion.org.uk |
| Grŵp Lleisiau Mamolaeth Hywel Dda<br>*Rhieni sy'n disgwyl* | drwy cathryn.morgan@ceredigion.gov.uk |
| Ffoaduriaid<br>*(mae'n bosib y bydd angen darparu cyfieithiadau ar eu cyfer)* | refugee.resettlement@ceredigion.gov.uk |

| | |
|---|---|
| Cyngor Ieuenctid Ceredigion a grwpiau ieuenctid eraill | porthcymorthcynnar@ceredigion.gov.uk |
| Fforwm Mynediad Lleol<br>*Y sawl sy'n cynghori'r Cyngor am faterion yn ymwneud â gwella mynediad cyhoeddus i dir ar gyfer hamddena yn yr awyr agored, gan gynnwys rheolaeth tir a chadwraeth* | eifion.jones@ceredigion.gov.uk |

**Rhestr o weithwyr proffesiynol / gweithwyr ar y rheng flaen**

| **Enw'r grŵp** | **Manylion cyswllt** |
|---|---|
| Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | drwy partneriaethau@ceredigion.gov.uk |
| Darparwyr Cymorth i Ofalwyr a Chysylltwyr Cymunedol | cysylltu@ceredigion.gov.uk |
| Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae | meinir.paske2@ceredigion.gov.uk |
| Grwpiau yn y trydydd sector | chesca.ross@cavo.org.uk |
| Banciau bwyd / Caffis Talwch Beth Fynnwch Chi / Oergelloedd cymunedol | drwy cathryn.morgan@ceredigion.gov.uk |
| Tîm Allgymorth Cymunedol Bwrdd Iechyd Hywel Dda | robert.allen@wales.nhs.uk |
| Age Cymru Dyfed | georgia.smith@agecymrudyfed.org.uk |
| Prifysgol Aberystwyth | iam14@aber.ac.uk |
| Cymdeithas Tai Wales and West | rhiannon.ling@wwha.co.uk |
| Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed | adam.whitehouse@d-das.co.uk |

## Atodiad 3: Templed ar gyfer cynnwys testun ar y dudalen we

**Teitl yr ymgyrch ymgysylltu / ymgynghori**

**Dyddiad cau'r ymgynghoriad:** [rhowch y dyddiad]

*Paragraff i esbonio pam eich bod yn rhedeg yr ymgyrch – rhowch y cyd-destun.*

- *nodwch yr hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r ymgyrch.*
- *esboniwch sut y byddwn yn rhoi gwybod i bobl am ganlyniadau'r ymgyrch.*

**Rhagor o wybodaeth:**

*Ychwanegwch ddolenni at unrhyw ddogfennau ategol a fydd o gymorth i roi'r cyd-destun.*

**Sut i gymryd rhan**

Llanwch ein harolwg ar-lein [ychwanegwch y ddolen]

Lawrlwythwch gopi papur [ychwanegwch y ddolen]

Lawrlwythwch fersiwn print bras [ychwanegwch y ddolen]

Lawrlwythwch fersiwn Hawdd ei Deall [ychwanegwch y ddolen]

Os ydych yn dymuno derbyn y wybodaeth mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar 01545 570881 neu drwy anfon neges e-bost i clic@ceredigion.gov.uk

Gallwch hefyd ofyn am gopi papur yn eich Llyfrgell neu Ganolfan Hamdden leol. Hefyd, mae modd gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01545 570881 neu drwy anfon neges e-bost i clic@ceredigion.gov.uk

Dychwelwch y copïau papur i'ch llyfrgell leol neu i [nodwch enw'r tîm] Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

Os hoffech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnig hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld uchod.

## Atodiad 4. Enghraifft o amserlen

| **Amserlen ar gyfer** [nodwch enw'r ymgyrch yma] | Ion | Chwef | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i asesu'r farn gyfredol. Cynnal gwaith ymchwil pen desg | | | | | | | | | | | | |
| Ysgrifennu eich adroddiad dadansoddi am ganlyniadau'r ymgyrch ymgysylltu, paratoi'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a llunio'r strategaeth/cynllun/polisi | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth/cynllun/polisi drafft, yr Asesiad Effaith Integredig cychwynnol a'r adroddiad dadansoddi gerbron y Pwyllgor Craffu | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth/cynllun/polisi drafft, yr adroddiad dadansoddi a'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol i'r Cabinet. Gofyn am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus (ar gyfer ymgynghoriadau statudol) | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r strategaeth/cynllun/polisi drafft | | | | | | | | | | | | |
| Ysgrifennu adroddiad sy'n dadansoddi'r ymgynghoriad, diwygio'r Asesiad Effaith Integredig os oes angen a pharatoi'r strategaeth/cynllun/polisi terfynol | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth/cynllun/polisi terfynol, yr Asesiad Effaith Integredig a'r adroddiad dadansoddi i'r Pwyllgor Craffu | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno'r strategaeth/cynllun/polisi terfynol, yr adroddiad dadansoddi, a'r Asesiad Effaith Integredig i'r Cabinet ei gymeradwyo | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi'r strategaeth/cynllun/polisi terfynol ar wefan y Cyngor a'i anfon drwy e-bost at y rhanddeiliaid a thimau perthnasol y Cyngor | | | | | | | | | | | | |

Noder: Mae angen caniatáu o leiaf 3 wythnos ar gyfer cyfieithu'r dogfennau ym mhob un o'r camau hyn.

# Atodiad 5. Egwyddorion Gunning

Mae Egwyddorion Gunning yn pennu'r disgwyliadau cyfreithiol o ran ymgynghori priodol, gan roi pwyslais ar 'degwch'. Gellir defnyddio'r egwyddorion yn y llys i bennu a yw corff cyhoeddus wedi ymgysylltu, ymgynghori a gwneud penderfyniadau mewn ffordd deg.

Cawsant eu bathu gan Stephen Sedley QC mewn achos llys yn 1985 yn ymwneud ag ymgynghoriad cau ysgol (R v London Borough of Brent ex parte Gunning). Cyn hyn, ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i ddeddfau ymgynghori.

Yn ôl diffiniad Sedley,  nid yw ymgynghori ond yn ddilys pan fydd y pedair egwyddor hyn yn cael eu bodloni:

**1.** Mae'r cynigion yn dal i fod yn y camau ffurfiannol

*Nid yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad wedi gwneud y penderfyniad terfynol eto ac nid yw wedi gwneud penderfyniadau rhag blaen.*

**2.** Mae digon o wybodaeth wedi'i rhoi fel y gall pobl ystyried y mater dan sylw mewn ffordd ddeallus.

*Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn berthnasol i'r ymgynghoriad a rhaid iddi fod ar gael yn rhwydd, yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli fel y gall y sawl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ddarparu ymateb gwybodus.*

**3.** Mae digon o amser wedi'i roi i bobl ystyried y mater dan sylw ac ymateb

*Rhaid rhoi digon o gyfle i'r sawl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad gymryd rhan. Nid oes amserlen benodol ar gyfer ymgynghori (er bod cyfnod o 12 wythnos yn cael ei dderbyn yn eang fel arfer da) gan fod yr amser a roddir i bobl ymateb i'r ymgynghoriad yn medru amrywio gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw ac effaith yr ymgynghoriad.*


**4.** Rhaid mynd ati mewn ffordd gydwybodol i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniad.

*Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn medru dangos tystiolaeth eu bod wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.*

Mae Egwyddorion Gunning yn sail i'n Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

**Atodiad 6. Offeryn gwneud penderfyniadau am ymgynghori**

Datblygwyd yr offeryn hwn fel canllaw i gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau ond mae'n werth cofio y bydd y gofynion ymgynghori yn amrywio o un cyd-destun i'r llall ac y bydd angen i chi asesu pob achos yn unigol. Bydd angen penderfynu ar y math o ymgynghori sy'n addas ar gyfer y cynnig penodol sy'n cael ei ystyried.



## Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd'

## Adroddiad Cynnydd 6 Misol: 01/04/2023 – 30/09/2023

**Nod 1: Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion.**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| Datblygu pecyn adnoddau Ymgysylltu a rhoi hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio i bob Rheolwr Corfforaethol. | Mae'r pecyn cymorth ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori wedi'i ddiwygio (gweler Atodiad 1). Mae cyngor wedi'i gynnig i swyddogion sy'n cynnal ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori ar sail un-i-un. Bydd sesiynau grŵp ynghylch defnyddio'r pecyn cymorth yn cael eu cynnig o fis Rhagfyr 2023. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Cadw amserlen o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir gan holl Wasanaethau'r Cyngor. | Mae'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cadw'r amserlen a chaiff ei diweddaru drwy'r amser. Daeth 8 ymgyrch i ben yn ystod y cyfnod dan sylw:<br>Ymgynghori<br>1. Ailddefnyddio hen adeilad y llyfrgell yng Ngheinewydd<br>2. Defnyddio arian ymddiriedolaeth elusen 'Hen Ysgol Sirol Tregaron' yn y dyfodol<br>3. Darpariaeth Seibiant a Gofal Dydd, y rhaglen Gydol Oes a Llesiant<br>4. Terfynau 20mya ar ffyrdd sirol<br>5. Strategaeth Dai Ceredigion<br>Ymgysylltu<br>1. Gofynnwyd am farn pobl wrth baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion<br>2. Cynhaliwyd arolwg o randdeiliaid yng Ngheredigion wrth gynnal hunanasesiad corfforaethol y Cyngor<br>3. Gofynnwyd am farn pobl ynglŷn â'r Arfarniadau a'r Cynlluniau Rheoli ynghylch Ardaloedd Cadwraeth. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu i fonitro'r datblygiadau wrth i ni newid sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd. | Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad blynyddol 2022-23 ym mis Gorffennaf 2023. Bydd adroddiad blynyddol 2023-24 yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2024. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |

**Nod 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru ein rhestr o grwpiau rhanddeiliaid. | Mae'r rhestr wedi'i hadolygu a'i diweddaru. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys yn y pecyn cymorth diwygiedig ar gyfer ymgysylltu ac mae ar gael i holl staff y Cyngor. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Datblygu'r defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a pharhau i ddefnyddio dulliau ymgysylltu nad ydynt yn rhai digidol. | Mae'r dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau corfforaethol ar wefan y Cyngor yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Penderfynwyd peidio â symud ymlaen gyda'r llwyfan ar-lein – 'Dweud eich Dweud Ceredigion'. Mae'r adnodd 'Fy Nghyfrif' yn cael ei ddatblygu ar gyfer Ceredigion a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau ar-lein o ymgysylltu â thrigolion Ceredigion.<br><br>Mae dulliau o ymgysylltu nad ydynt yn rhai digidol yn cael eu defnyddio. Bydd y pecyn cymorth ar gyfer ymgysylltu o gymorth i sicrhau cysondeb ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. | **Oren** rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud |
| Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu. | Mae dull cyson o roi adborth wedi'i amlinellu yn y pecyn cymorth ar gyfer ymgysylltu. Bydd yr hyfforddiant a roddir ynghylch defnyddio'r pecyn cymorth yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi adborth. | **Oren** rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud |

**Nod 3: Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| Sicrhau bod mecanwaith ar waith fel bod y cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell drwy'r system cyfarfodydd hybrid. | Cyflwynwyd y protocol drafft ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 09/06/2023 a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 26/10/23. | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Diwygio a diweddaru ein hofferyn Asesiad Effaith Integredig (AEI) | Cafodd yr Offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet. Bydd y swyddogion yn ei ddefnyddio o 1 Rhagfyr 2023 ymlaen. | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Sefydlu system e-ddeisebau a chyhoeddi protocol sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt. | Mae'r Protocol Deisebau wedi'i restru o dan Ran 5 (Codau a Phrotocolau) cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r cyfansoddiad ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan y Cyngor - Cyfansoddiad y Cyngor - Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad am y newidiadau i'r protocol, gan gynnwys e-ddeisebau, gerbron Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 20/09/2023 ac mae disgwyl iddo fynd gerbron cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |

**Nod 4: Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|
| Adolygu a diwygio Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion | Cyhoeddwyd y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi presennol ym mis Hydref 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2025, neu cyn hynny os bydd angen. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Sicrhau bod y pecyn cymorth ymgysylltu yn gyfredol fel y gall pob aelod o staff ei ddefnyddio. | Mae'r pecyn cymorth ymgysylltu wedi'i ddiwygio. Bydd yn cael ei ddiweddaru a bydd ar gael i'r holl staff ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan fewnol y staff. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Cydweithio â'n cydweithwyr ym maes ymgysylltu a chydraddoldeb ledled Cymru. | Mae'r rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn aelod o Rwydwaith Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymru a'r Rhwydwaith Arweinwyr Ymgysylltu, sy'n cael eu rhedeg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.<br><br>Mae'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyfrannu at gyfarfodydd ymgysylltu a chydraddoldeb rhanbarthol ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda rheolwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ymarfer ymgynghori rhanbarthol wrth i ni baratoi i adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau,19 Hydref 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ifan Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Ceris Jones, Hugh R M Hughes, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catrin M S Davies a Gareth Davies (Aelodau Cabinet); y Cynghorwyr Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Wyn Evans a Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol**:
Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mrs Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol – Partneriaeth a Pherfformiad; Ms Marie Neige-Hadfield, Rheolwr Cwynion Corfforaethol a Rhyddid Gwybodaeth; Ms Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Cymorth Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00am-12:25pm)

1 **I ethol is-Gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023.2024 i gychwyn yn syth**

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Elaine Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023/2024, i ddechrau ar unwaith.

2 **Ymddiheuriadau a Materion Personol**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies, Eryl Evans a Paul Hinge ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Caryl Roberts i'r holl Swyddogion Arweiniol Corfforaethol am ei sylwadau yn y cyfarfod diwethaf, a oedd yn ei barn hi wedi cael eu camddehongli. Serch hynny, dywedodd y Cynghorydd Roberts nad oedd yn briodol gwneud y gymhariaeth a'i bod yn cymryd cyfrifoldeb am ei gweithredoedd.

3 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**4 Adroddiad Blynyddol Mynd i'r Afael a Chaledi 2022.2023**

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wrth ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion. Dyma oedd yr adroddiad olaf am y 'Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi' a oedd yn dod i ben fel strategaeth ar wahân. Yn y dyfodol, cytunwyd y byddai is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn fater trawsbynciol ar draws yr holl feysydd gwaith wrth gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28. Roedd cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i helpu'r Cyngor i gyflawni hyn.

Roedd tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2020-2023 fel a ganlyn:

1. Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, dod i ddeall effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.
2. Cydlynu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
3. Nodi bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Roedd y Cyngor wedi cyflawni amcanion y strategaeth. Roedd yr is-grŵp Tlodi wedi cyfarfod yn rheolaidd ac roedd wedi trafod ystod eang o faterion i'n helpu i ddeall effaith caledi ar bobl Ceredigion. Roedd y dangosfyrddau data a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio'n eang gan bartneriaid ac roeddent wedi'u cydnabod ledled Cymru fel enghraifft o arfer da.

Roedd cynllun gweithredu'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi a'r adroddiadau rheolaidd wedi helpu'r Cyngor i gydlynu ei gamau gweithredu. Bu'r dudalen Costau Byw ar wefan y Cyngor a'r daflen Costau Byw, a bostiwyd i holl godau post Ceredigion yn ystod gaeaf 2022, o gymorth i hyrwyddo'r cymorth a oedd ar gael. Roedd y bylchau mewn cymorth wedi'u nodi ac, er nad oedd y Cyngor yn gallu mynd i'r afael â phob un o'r rhain, roedd wedi gallu ymateb i rai ohonynt, e.e. sefydlwyd rhwydwaith o 54 o Fannau Croeso Cynnes a oedd yn cynnig lle cynnes a chyfeillgar i gymunedau ddod at ei gilydd yn ystod gaeaf 2022.

Cyflwynwyd yr adroddiad llawn am y cyfnod rhwng Mawrth 2022 ac Ebrill 2023.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23.

Hefyd, cytunwyd y dylid anfon e-bost at Glercod y Cynghorau Cymuned lle nad oedd banciau bwyd yn bodoli yn eu wardiau sef Llandyfrïog, Llanddewi Brefi, Tregaron ac Ystrad Fflur ynglŷn â'r broses o sefydlu'r banciau yn y wardiau hyn.

**5** **Adroddiad Blynyddol Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth 2022.2023**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad y wybodaeth ynglŷn â gwaith y Cyngor o ran Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth benodol ar y nifer a'r mathau o sylwadau o ganmoliaeth a chwynion a dderbyniwyd, gwahanol gamau'r weithdrefn gwynion, perfformiad a chanlyniadau yn ymwneud â'r rhain, a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Hefyd, cyflwynwyd adroddiad am y sylwadau o ganmoliaeth a chwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyd gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r cwynion (corfforaethol). Roedd y prif adroddiad yn cynnwys adran am y cysylltiadau a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ogystal, cyflwynwyd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at y Cyngor ac roedd hwn yn rhoi rhagor o fanylion am holl weithgarwch yr Ombwdsmon ar gyfer Ceredigion a chynghorau eraill ledled Cymru.

Dyma'r pedwerydd adroddiad yn olynol lle na chafodd unrhyw ymchwiliadau eu cychwyn nac unrhyw adroddiadau ffurfiol eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Er bod llai o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn adrodd hon, roedd gan y Cyngor gyfradd gyson uchel o Setliadau Datrysiad Cynnar/Gwirfoddol.

Cydnabuwyd felly fod heriau'n parhau mewn perthynas â chymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd, y cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â chwynion, Rhyddid Gwybodaeth, atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon ac atgyfeiriadau at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ei hun. Yn anochel, roedd yr heriau hyn wedi cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion perfformiad yn unol â'r amserlenni penodedig.

Yn gryno:
- roedd 465 o sylwadau o ganmoliaeth wedi dod i law
- roedd 403 o ymholiadau wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- roedd 144 o gwynion wedi dod i law: Cam 1 = 96   Cam 2 = 48
- cafwyd 35 o 'Gysylltiadau' gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- roedd 882 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Wrth grynhoi, soniwyd am y canlynol:-
- Cafwyd llawer mwy o sylwadau o ganmoliaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd gwella'r ffordd yr oedd sylwadau o ganmoliaeth yn cael eu cyflwyno yn parhau i fod yn waith yr oedd angen i'r Tîm Cwynion a'r

Rhyddid Gwybodaeth ei wneud, ond roedd oedi o ran y gwaith hwn oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti.

- Derbyniodd y gwasanaeth llawer mwy o ymholiadau – roedd llawer ohonynt naill ai wedi'u dyrannu i'r meysydd gwasanaeth priodol i'w datrys yn rhagweithiol, neu roedd angen ymatebion ffurfiol er mwyn egluro pam na ellid ymdrin â materion o'r fath o dan y gweithdrefnau cwynion.

- Roedd yn werth nodi mai nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor oedd y trydydd isaf yng Nghymru.

- Roedd angen gwneud llawer iawn o waith i atal cwynion Cam 1 rhag symud i Gam 2 yn ddiangen oherwydd nad oedd modd ymateb o fewn yr amserlen benodedig o ddeg diwrnod gwaith.

- Hefyd, roedd angen rhoi sylw i'r trefniadau o ran cydymffurfio ag amserlenni Cam 2, yn ogystal â'r diffygion wrth ymdrin â chwynion a oedd wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon. Roedd y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i wynebu heriau wrth geisio bodloni'r gofynion cynyddol o ran nifer y sylwadau o ganmoliaeth, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

- Roedd llai o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon na'r llynedd, ond nodwyd mai nifer y Setliadau Datrysiad Cynnar / Gwirfoddol oedd yr uchaf yng Nghymru.

- Materion yn ymwneud â Chasglu Sbwriel a Chynllunio yw'r prif resymau o hyd dros gwynion. Fodd bynnag, roedd y gwasanaethau hyn yn fwy tebygol o ddenu cwynion ac felly rhaid ystyried y cyd-destun a lefel y gweithgarwch a wneir gan y ddau faes gwasanaeth dan sylw.

- Roedd cydymffurfiaeth â'r amserlenni Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ar y lefel isaf a gofnodwyd, sef 54% a 44%. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud i wella hyn.

Ymhlith y meysydd yr oedd angen canolbwyntio arnynt oedd y canlynol:-

- Gwella cydymffurfiaeth â'r amserlenni a bennwyd yn y polisïau/deddfwriaeth sy'n ymwneud â chwynion a Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- Cryfhau cydnerthedd o fewn y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- Atgyfnerthu'r egwyddor bod cwynion yn gyfrifoldeb i'r Cyngor cyfan
- Darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar ymdrin â chwynion
- Gwella'r system ar gyfer casglu sylwadau o ganmoliaeth a data am y gwersi a ddysgwyd.
- Parhau â dull agored, tryloyw sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth ddatrys pryderon.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad hwn cyn y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.

**6** **Diweddariad ar Gontract Bancio'r Cyngor**

Dywedodd y Cadeirydd fod cais wedi dod i law oddi wrth aelod o'r cyhoedd ar 27 Gorffennaf 2023 yn gofyn iddo ystyried y ddarpariaeth o ran gwasanaethau bancio'r Cyngor yn wyneb pryder am yr angen brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chymryd pob cam angenrheidiol i gyrraedd 'sero net'.

Bu i'r aelod o'r cyhoedd nodi'r canlynol:
Teimlwn y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Craffu ystyried yn drylwyr ac ymchwilio i'r sawl y mae'r awdurdod yn bancio â nhw, yr effaith y gallai hyn ei chael a'r ffordd orau ymlaen ar gyfer yr Awdurdod i sicrhau bod ei arian a'i fuddsoddiadau yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn hytrach na gwaethygu'r sefyllfa. Yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor, daeth Mr Grimsell i'r cyfarfod i annerch yr Aelodau ar y mater hwn.

Ar ôl hynny, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r hyn yr oedd y contract bancio yn ei gwmpasu a'r diweddaraf am y broses dendro bresennol. Bu iddo hefyd nodi fod materion amgylcheddol wedi'u hystyried o fewn y meini prawf sgorio.

Yn dilyn cwestiynau gan yr Aelodau, cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Grimsell am ddod i'r cyfarfod i rannu ei bryderon.

**7** **Ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor**

CYTUNWYD i nodi'r flaenraglen waith fel y'i cyflwynwyd.

**8** **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

Cynigiodd y Cynghorydd Caryl Roberts newidiadau arfaethedig i'r cofnodion drafft fel a ganlyn:

- Dileu'r cyfeiriad at **Swyddogion** yn nhrydydd paragraff yr eitem am Clic gan mai dim ond at y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yr oedd y Cynghorydd Caryl Roberts yn cyfeirio atynt; "fod y Prif Weithredwr wedi dweud wrth yr holl Aelodau yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad na ddylai'r Aelodau gysylltu ag unrhyw **swyddogion** yn uniongyrchol i drafod materion, **ar wahân i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol**"
- Dileu'r cyfeiriad at "y Rheolwr Corfforaethol" a oedd hefyd yn nhrydydd paragraff yr eitem am Clic; "na ddylai'r Aelodau gysylltu ag unrhyw swyddogion yn uniongyrchol i drafod materion, ar wahân i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, **y Rheolwr Corfforaethol** neu ef ei hunan"
- Ychwanegu brawddeg "Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhywun o amgylch y bwrdd hwn yn dweud celwydd."

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ychwanegu'r frawddeg a rhoddwyd cyngor gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

Wrth ystyried y newidiadau arfaethedig i'r cofnodion, PENDERFYNWYD cau allan y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ar y sail bod y drafodaeth yn ymwneud ag unigolyn/unigolion ac na ddylai gwybodaeth o'r fath, ar ôl pwyso a mesur, gael ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg.

Cytunwyd i gau allan y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod yn unol â pharagraff 12 y rheolau ynghylch Mynediad at Wybodaeth.

Yn dilyn trafodaeth, dychwelodd y cyfarfod i fod yn un cyhoeddus.

Bu i'r Cynghorydd Caryl Roberts dynnu'n ôl y frawddeg ychwanegol arfaethedig a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Ann Bowen Morgan.

Yn dilyn pleidlais, CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod yn amodol ar y newidiadau canlynol:-

- Dileu'r cyfeiriad at **Swyddogion** yn nhrydydd paragraff yr eitem am Clic gan mai dim ond at y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yr oedd y Cynghorydd Caryl Roberts yn cyfeirio atynt; "fod y Prif Weithredwr wedi dweud wrth yr holl Aelodau yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad na ddylai'r Aelodau gysylltu ag unrhyw **swyddogion** yn uniongyrchol i drafod materion, **ar wahân i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol**"
- Dileu'r cyfeiriad at "y Rheolwr Corfforaethol" a oedd hefyd yn nhrydydd paragraff yr eitem am Clic; "na ddylai'r Aelodau gysylltu ag unrhyw swyddogion yn uniongyrchol i drafod materion, ar wahân i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, **y Rheolwr Corfforaethol** neu ef ei hunan"

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **7 Rhagfyr 2023**

**Teitl:** **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
**Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod**

**Cefndir:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**<u>Y Sefyllfa Gyfredol:</u>**
**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Dwynwen Jones

**<u>Swyddogaeth:</u>** Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu

**<u>Dyddiad yr adroddiad:</u>** 30 Tachwedd 2023

**<u>Acronymau:</u>**
BW – Blaenraglen Waith

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 12 Mehefin 2023 | Trefi SMART<br><br>Diweddariad Cysylltedd Digidol<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23 | Arwyn Davies<br><br>David Owen<br><br>Cathryn Morgan | Ar gais y Cadeirydd<br><br>Ar gais y Cadeirydd |
| 19 Gorffennaf 2023 | Polisi'r Menopos<br><br>Cynllun y Gweithlu<br><br>Diweddariad ar weithio'n Hybrid<br><br>Diweddariad ar Clic (wedi gofyn am)<br><br>Medium Term Financial Plan (MTFP) | Geraint Edwards<br><br>Geraint Edwards<br><br>Russell Hughes-Pickering/Geraint Edwards<br><br>Joy Lake/Anna Gawthorpe<br><br>Duncan Hall | Cyn Cabinet<br><br>Cyn Cabinet<br><br>Ar gais y Pwyllgor |
| 19 Hydref 2023 | I Ethol is-gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023/2024 I gychwyn yn syth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mynd i'r Afael â Chaledi<br><br>Adroddiadau Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Diweddariad ar y contract Bancio | Cathryn Morgan<br><br>Marie Niege-Hadfield<br><br>Duncan Hall | |
| 7 Rhagfyr 2023 | Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23<br><br>Trafod y posibilrwydd o greu Grwp Tasg a Gorffen Caffael | Cathryn Morgan | Cytunwyd yng nghyfarfod Mehefin |
| 22 Ionawr 2024 - ARBENNIG | Gwahodd Peter Williams WG a Openreach i diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith yng Ngheredigion<br><br>Adroddiad hanner blwyddyn ar canmoliaeth, cwynion, rhyddid gwybodaeth pob gwasanaeth<br><br>Strategaeth Digidol a ICT | Marie-Niege Hadfield<br><br>Alan Morris | |
| 9 Chwefror 2024, 1:30 | Paratoi ar gyfer y Gyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cyfarfod arbennig i'w drefnu<br><br>Diwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2024 | Polisi Gwyliau Blynyddol a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith<br><br>Gweithio'n hyblyg gan gynnwys Polisi Gweithio'n Hybrid<br><br>Polisi Absenoldeb | Geraint Edwards | Cyn-Cabinet |
| 16 Mai 2024 | Diweddariad ar Treth y Cyngor a Diwygio Lles<br><br>Ffermydd y Sir | Ann Ireland<br><br>Arwyn Davies | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | • Adroddiad ar yr Ystad Corfforaethol<br>• Strategaeth Caffael a Chomisynu | | |
| Grwp Gorchwyl a Gorffen | Ffermydd y Sir – yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. Cyfarfod nesaf 13.12.23 yn y Siambr – nid yw'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfarfod yma yn gyhoeddus | | |